

## CLWB MYNYDDA CYMRU.

CYFARFOD BLYNYDDOL 2009 – 6:00 Y H., 14 TACHWEDD,

### PLAS Y BRENIN

1. **Croesawodd y Cadeirydd**, Morfudd Thomas, y 43 aelod a oedd yn bresennol i'r Cyfarfod. Diolchodd am gefnogaeth y Pwyllgor, yr aelodau a'r arweinwyr. Bu blwyddyn llwyddiannus o gerdded, scrambling, dringo a, hyd yn oed bowlderu – yng Nghymru a thramor. Roedd offer dringo wedi eu prynu ar gyfer defnydd yn y De. Roedd presennoldeb y Clwb yn yr Eisteddfod yn un llwyddiannus. Apeliodd am syniadau newydd ar gyfer teithiau.
2. **Ymddiheuriadau**. Roedd 3 aelod wedi'u ymddiheurio.
3. **Adroddiad yr Ysgrifennydd Aelodaeth a Cyffredinol**. Roedd gan y Clwb ychydig dros 300 o aelodau. Gofynnodd i aelodau dalu am eu cinio, prynu'r llyfr "Mynydda" am £15 a thalu am fathodynau cyn mynd adre! Yn ogystal, roedd cyflenwad o bosteri i'w harddangos ac arddangosfa symudol y Clwb i'w benthyg ac arddangos. Ceisir dangos y ffilm "Dringo'r Dom" yn Llanffest mis Mawrth a cynnal trafodaeth wedyn.
4. **Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgaredd**. Yn ystod y flwyddyn agorodd Hafod Eryri, ail-enwyd mynydd ar y Carneddau a cododd uchder dau fryn yn Eryri! Bu 60 diwrnod o weithgaredd, 5 taith preswyl a the parti ar yr Aran. Roedd Anita Daimond yn gyfrifol am yr offer dringo yn y Gogledd a Guto Evans yn y De. Diolch i gymorthdaliad CMP prynodd ychwaneg o offer. Cynhaliwyd Diwrnod Blasu llwyddiannus ar 10 Hydref. Roedd y criw dringo, criw dydd Mercher ac yr aelodau yn y De yn darparu rhestrau o weithgaredd cyn neu yn fuan ar ôl pob Pwyllgor.  
  
*( Roedd presennoldeb Cadeirydd CMP Cymru, Mike Raine, yn y drws am funud cyfle atgoffa'r aelodau o bwysigrwydd i'r Clwb chwarae rhan llawn yng ngweithgaredd y CMP yng Nghymru – yn y Gogledd ac yn y De, gan gynnwys y CCB ym Mlas y Brenin ar 5 Rhagfyr. )*
5. **Adroddiad Ysgrifennydd y Gwefan**. Roedd gwasanaeth i'r aelodaeth gyfathrebu gyda'i gilydd drwy Wefan y Clwb a gwefan 'Facebook' wedi ei sefydlu. Roedd e'n awyddus i ddatblygu'r "Mynyddiadaur" ym mhellach erfynodd am gyfraniadau gan yr aelodau.
6. **Adroddiad y Trysorydd**. Cyflwynodd y Mantolen llawn gan y Trysorydd.

7. **Etholodd y Swyddogion** canlynol : Is-Gadeirydd: Arwel Roberts, Ysgrifenyddion : Maldwyn Roberts, Iolo ap Gwynn a Clive James, Trysorydd: John Arthur Jones.
8. Penodwyd Gwyn Roberts a Dilys Philips i gyfri'r pleidleisiau'r etholiad ar gyfer aelodaeth o'r Pwyllgor. Y canlyniad: Etholwyd : Anita Daimond ( 45 pleidlais ), Alwen Williams ( 43 ), Rhys Dafis ( 42 ), Gareth Roberts a Nia Williams ( 32 ), Guto Evans ( 30 ) a Gwyn Williams { Llanrwst ] ( 29 ). Roedd 26 pleidlais i Iolyn Jones, 23 i Gwilym Jackson a 16 i Sian Griffiths.
9. Penodwyd Gareth Pierce Evans fel **Archwiliydd** am gydnabyddiaeth o botel o win
10. Nid oedd unrhyw gynnig ffurfiol i'w trafod.
11. Yn y **drafodaeth agored trafodwyd**: bydd llun ac erthygl ym "Mhapur Dre", Caernarfon; cynnal hyfforddiant dringo rhew adeg penwythnos preswyl Rhyd Ddu, llonyfarchiadau i Gwen Evans am gyfeithiad graenus o lyfr "Hillwalking" fel "Mynydda"; a'r syniad o gynnal nosweithiau cymdeithasol cyson.

*Ar ol y cyfarfod blynydol cafwyd cinio blasus ym Mhlas y Brenin a sgwrs difyr gan Jeremy Trumper am ei anturiaethau ar pileri môr yn Stoer a Hoy adeg ei benblwydd yn 70 oed.*